*This document is available in English*

**Eitem Agenda 10**

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad i'r | **Pwyllgor Archwilio** | |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2024** | xxx |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards, Trysorydd** | |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** | |
| Pwnc | **Cymeradwyo Mandad Banc** | |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â dirprwyo'r trefniadau bancio.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) roi trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r asedau dan ei reolaeth, gan gynnwys rheoli cyfrifon banc a thrafodion.

3 Mae'r adroddiad yn cadarnhau'r cynnig i geisio awdurdod i'r gweithgareddau a nodir yn yr adroddiad hwn gael eu dirprwyo i dri pherson awdurdodedig: y Prif Swyddog Tân (PST), Trysorydd yr Awdurdod, a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC), Cyllid ac Adnoddau. Ym mhob achos, byddai angen dau lofnod.

**ARGYMHELLION**

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Cymeradwyo'r dirprwyo arfaethedig ar y gweithgareddau a amlinellir yn yr adroddiad hwn i unrhyw ddau lofnodwr o blith y bobl ganlynol: y Prif Swyddog Tân, Trysorydd yr Awdurdod neu'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau.

**CEFNDIR**

5 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau priodol ar waith i ddiogelu a rheoli ei asedau, gan gynnwys gweithrediad ei gyfrifon banc.

6 Mae pob cyfrif banc yn destun mandad banc sy'n rhoi cadarnhad o'r person/unigolion sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu ar ran yr Awdurdod. Er mwyn galluogi'r cyfrif banc i weithredu o ddydd i ddydd, mae angen rhoi trefniadau ar waith i ddirprwyo swyddogaethau'r Awdurdod i swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**GWYBODAETH**

7 Ceisir cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio i ddirprwyo'r camau canlynol i'r Prif Swyddog Tân, Trysorydd yr Awdurdod neu'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau:

- Agor cyfrifon banc;
- Newid llofnodwyr ar gyfer cyfrifon banc;
- Ymdrin â materion bancio cysylltiedig gan gynnwys llofnodi unrhyw gytundeb mewn perthynas â gwasanaethau rheoli arian parod a ddarperir gan y banc a fydd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, amodau cyfrifon, cynhyrchion a gwasanaethau banc, trefniadau cronni arian parod, cytundebau sy'n ymwneud â gwasanaethau talu a gwasanaethau derbyniadwy neu gytundebau eraill sy'n ymwneud â thrafodion bancio ariannol; a
- Llofnodi dogfennau mewn perthynas â sianeli bancio electronig a dirprwyo i'r unigolion penodedig y pŵer i benderfynu ar faterion yr ymdrinnir â nhw ar gyfer sianeli bancio electronig a chaniatáu i'r unigolion hynny is-ddirprwyo'r pŵer i unigolion eraill wneud taliadau a rhoi cyfarwyddiadau eraill mewn perthynas â'r sianeli bancio electronig hynny.

8 Er mwyn sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith, byddai angen llofnod dau berson o'r rhestr o dri llofnodwr cymeradwy ar gyfer y camau uchod.

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithrediad cyfrifon banc yr Awdurdod yn hanfodol i weithrediad parhaus y Gwasanaeth. |
| Cyllideb | Dim effaith gyllidebol. |
| Cyfreithiol | Mae'r dirprwyo yn cefnogi amgylchedd rheoli mewnol effeithiol. |
| Staffio | Dim effaith. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Amherthnasol. |
| Risgiau | Mae’r gweithgareddau dirprwyedig yn destun mesurau rheoli ac mae angen dau lofnodwr. |